# Breintiau'r Cynulliad

Hysbysiad Hwylus

Hydref 2012

## Cyflwyniad

Defnyddir y term "braint" yn y cyd-destun gwleidyddol i ddisgrfio'r hawliau, y pwerau a'r breinryddid arbennig sydd gan ddeddfwrfa a'i haelodau etholedig er mwyn sicrhau bod ganddi ei hannibyniaeth gyfansoddiadol, ac i alluogi'r aelodau etholedig i ddadlau'n rhydd yn y trafodion ynghylch materion o bwys, heb ofni cael eu dwyn i'r llys neu gael eu herlyn.

Caiff Senedd y DU y breinryddid a'r pwerau hyn, nid o statud, ond o freintiau hanesyddol niferus sy'n deillio o frwydr rhwng y Brenin a'r Senedd yn y 17eg ganrif, ac a gadarnhawyd gan *Ddeddf Hawliau Dynol 1689*. I'r gwrthwyneb i hyn, mae breintiau'r Cynulliad Cenedlaethol yn deillio o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*[1] ("Deddf 2006") yn unig, ac, o'r herwydd, mae cwmpas ei freintiau'n llawer mwy cul na'r rhai sy'n berthnasol i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi a'u Haelodau.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o'r breintiau statudol sy'n berthnasol mewn cysylltiad â'r Cynulliad ac mae'n cymharu'r pwerau a'r hawliau hyn â'r breintiau hanesyddol llawer ehangach sydd gan Aelodau Seneddol ac Arglwyddi yn San Steffan.

**Noder mai gwybodaeth gyffredinol yn unig ynghylch breintiau yn y Cynulliad sydd yn y ddogfen hon; nid yw'n fwriad iddi fod yn ganllaw cyfreithiol cyfansoddiadol ffurfiol. Dylai unrhyw un sy'n chwilio am wybodaeth neu ganllawiau ynghylch achosion penodol yn ymwneud â breintiau yn y Cynulliad gael cyngor cyfreithiol.**

## Braint yn San Steffan

Yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, mae dwy ran, yn fras, i freintiau seneddol:

### Rhyddid i lefaru

Mae *Deddf Hawliau Dynol 1689* yn sicrhau'r rhyddid i lefaru i Aelodau Seneddol. Yn ei hanfod mae hyn yn diogelu aelodau dau'r Dŷ'r Senedd rhag cael unrhyw gosb, sifil na throseddol, mewn llys na thribiwnlys am yr hyn a ddywedwyd ganddynt yn ystod trafodion Senedd y DU.[2] Nid yw hyn, fodd bynnag, yn golygu bod gan Aelodau Seneddol imiwnedd rhag erlyniad troseddol na sifil, fel sy'n digwydd mewn rhai gwledydd, ond dim ond na all tystiolaeth o'r hyn a ddywedwyd yn ystod trafodion seneddol gael ei defnyddio yn erbyn Aelodau Seneddol mewn llysoedd troseddol neu sifil.

### Pwerau'r senedd i warchod ei phrosesau ei hun (a elwir hefyd yn "awdurdodaeth lwyr")

Mae "awdurdodaeth lwyr gyfyngedig" yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r arfer o reoli ei materion ei hun gan Senedd y DU. Mae'n rhoi rheolaeth unigol i Senedd y DU benderfynu ar ei gweithdrefnau ac i ddisgyblu ei haelodau ei hun am

[1] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** (Pennod 32)
[2] Senedd y DU, Cyd-bwyllgor ar Freintiau Seneddol, *Report*, 9 Ebrill 1999, HC 214 1998-99, paragraff 37

gamymddwyn, heb ymyrraeth gan gorff allanol. Mae hyn yn rhoi awdurdod pendant i Senedd y DU dros y weithdrefn a ddefnyddir ganddi fel deddfwr ac, o'i ystyried ar y cyd â'r cysyniad o ryddid i lefaru, mae'n darparu hawliau sy'n elfennau hanfodol o annibyniaeth seneddol.[3]

## Braint yn y Cynulliad

Mae breintiau'r Cynulliad yn llawer mwy cul na breintiau hanesyddol Llywodraeth y DU. Hawliau cyfyngedig sydd gan Aelodau'r Cynulliad mewn cysylltiad â rhyddid i lefaru, a gall prosesau mewnol y Cynulliad hefyd fod yn ddarostyngedig i ymyriadau allanol (drwy'r llysoedd a chyfreithiau Senedd y DU).

Daw braint yn y Cynulliad o Adran 41 i Adran 44 o Ddeddf 2006 yn unig. Yn gyffredinol mae'r rhain yn adlewyrchu breintiau Senedd yr Alban o dan y *Scotland Act 1998*[4] a breintiau Cynulliad Gogledd Iwerddon o dan y *Northern Ireland Act 1998*.[5] Maent yn berthnasol i'r meysydd a ganlyn yn unig:

### Difenwad[6]

Mae Deddf 2006 yn sicrhau bod unrhyw ddatganiad difenwol a wneir yn ystod trafodion y Cynulliad[7][8] yn "gwbl freintiedig"[9] a'i fod felly wedi'i ddiogelu rhag achosion sifil neu droseddol. Nod hyn yw sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn rhydd i ddadlau ac fod y Cynulliad yn rhydd i adrodd ynghylch materion sydd o ddiddordeb cyhoeddus heb ofni y cymerir camau difenwad. Yn ogystal â gwarchod Aelodau'r Cynulliad, mae Deddf 2006 yn yr un modd, yn gwarchod unrhyw dystion sy'n cyflwyno tystiolaeth lafar yn ystod trafodion y Cynulliad neu unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Cynulliad .

**Nid yw** Deddf 2006, fodd bynnag, yn darparu breinryddid i Aelodau'r Cynulliad neu dystion rhag heriau cyfreithiol ar sail **ar wahân i ddifenwad**. Ni ddarperir unrhyw freinryddid o dan Ddeddf 2006, felly, mewn cysylltiad, er enghraifft, ag achosion llys am dorri ar gyfrinachedd, cyhuddiadau o anogaeth o gasineb hiliol, neu droseddau o dan y *Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989* sy'n gysylltiedig ag unrhyw beth a ddywedir gan Aelodau'r Cynulliad neu gan dystion yn ystod trafodion y Cynulliad.

Ni roddir unrhyw warchodaeth i Aelodau na thystion gan Ddeddf 2006 ychwaith, naill ai os bydd eu sylwadau wedi'u cyflwyno y tu allan i drafodion y Cynulliad neu os bydd eu dogfennau ysgrifenedig wedi'u cyhoeddi heb awdurdod pendodol y Cynulliad.

### Dirmyg llys

Nid yw trafodion y Cynulliad (yn wahanol i drafodion Senedd y DU, y mae ei phrosesau wedi'u gwarchod gan freintiau) wedi'u diogelu'n gyffredinol rhag gorchmynion llys barn na rhag rheolau cyfreithiol a gynlluniwyd i warchod achosion llys (fel gwarchod anhysbysrwydd tystion er enghraifft).

Fodd bynnag, mae Deddf 2006 yn gwarchod Aelodau'r Cynulliad ac eraill rhag bod yn euog o "ddirmyg llys" o dan y rheol "atebolrwydd llym", hynny yw, pan fyddant wedi cyfeirio'n anfwriadol neu ar gam at achosion llys sydd ar waith yn ystod trafodion y Cynulliad. **Ni** fydd yn eu gwarchod mewn achosion ble y gwneir datganiadau i ddylanwadu'n fwriadol ar achosion llys, neu os nad ufuddhawyd i orchmynion llys penodol.

---

[3] Ibid, HC 214 1998-99, paragraff 113
[4] Gweler Adran 41 a 42 o'r ***Scotland Act 1998*** (Pennod 46)
[5] Gweler Adran 50 o'r ***Northern Ireland Act 1998*** (Pennod 47)
[6] Caiff "Difenwad" ei ddiffinio fel difetha enw da rhywun.
[7] Mae Deddf 2006 yn diffinio "trafodion y Cynulliad" i gynnwys trafodion y Cyfarfod Llawn, pwyllgorau neu is-bwyllgorau yn y Cynulliad
[8] Caiff "Datganiad" ei ddiffinio i olygu "geiriau, lluniau, delweddau gweledol, arwyddion neu unrhyw ddull arall o nodi ystyr" gan Ddeddf 2006.
[9] **Deddf Llywodraeth Cymru 2006** (Pennod 32), Adran 42 (Saesneg yn unig)

Caiff y breinryddid hwn ei gydbwyso gan ddarpariaethau yn Neddf 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i osod cyfyngiadau mewnol cyfatebol ar Aelodau'r Cynulliad a thystion. Mae Adran 31(2) o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn cynnwys darpariaethau sy'n atal ymddygiad yn ystod trafodion y Cynulliad a fyddai (pe na bai am y breinryddid sydd ganddynt) yn cynnwys "dirmyg llys" – h.y.rheol *sub judice*[10] ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. O ganlyniad, dywed Rheolau Sefydlog 13.15 a 17.28 na ddylai Aelod Cynulliad godi unrhyw fater na mynd ar drywydd unrhyw fater mewn Cyfarfod Llawn neu gyfarfodydd pwyllgor sy'n ymwneud ag unrhyw achosion sydd ar waith, oni bai bod y Llywydd neu Gadeirydd y Pwyllgor dan sylw yn fodlon:

- Bod gan y mater berthynas glir â mater sydd o bwys cyhoeddus cyffredinol neu fod benderfyniad gweinidog o dan sylw;
- Nad yw'r mater yn ymwneud ag achos sydd i'w wrando, neu sy'n cael ei wrando, gerbron llys troseddau neu gerbron rheigor neu ag achos sydd i'w wrando, neu sy'n cael ei wrando, mewn achos teuluol; a
- Nad yw'r Aelod, yn ei sylwadau ef neu hi, yn creu risg real a sylweddol o ragfarnu achos llys, naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas ag achos penodol.[11]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **FREINTIAU YN Y CYNULLIAD**, cysylltwch ag **OWAIN ROBERTS** (**owain.roberts@Wales.gov.uk**), Y Gwasanaeth Ymchwil.

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon ati: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Rhif ymholiad: 12/2244**
**Enw'r awdur**: Owain Roberts

[10] Mae "*sub judice* rule" yn rheol sy'n atal unrhyw gyfeirio, mewn cwestiynau na dadleuon, at faterion sy'n aros am benderfyniad mewn achosion llys.
[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru***, Mehefin 2012, Rheolau Sefydlog 13.15 a 17.28